

---

 Rheoli amgylcheddol 2 T319
 

---

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiadau arloesol mewn cysyniadau ac ymarfer sy'n ymwneud â rheoli amgylcheddol a'r ffordd y cânt eu hwyluso. Bydd myfyrwyr yn archwilio damcaniaethau systemau yn fanwl a chânt gyfle i ymchwilio i sefyllfaoedd cymhleth ar lefel ddomestig, sefydliadol a chymunedol. Drwy ddefnyddio Maes Awyr Heathrow Llundain fel astudiaeth achos, cânt safbwyntiau gwahanol o sefyllfaoedd sy'n ymwneud â rheoli amgylcheddol, barn rhanddeiliaid, y ffordd y cânt eu cynrychioli ac effaith y safbwyntiau hyn ar gamau gweithredu pellach a datblygiadau arloesol. Dyluniwyd y modiwl hwn i ddatblygu ac ymhelaethu ar y syniadau, yr adnoddau a'r defnydd ohonynt a gyflwynwyd ym modiwl T219 *Rheoli amgylcheddol 1*.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb person gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu brofiad proffesiynol cyfatebol mewn maes sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd neu systemau
- profiad cyfredol o ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu rheoli amgylcheddol (megis amrywiaeth o asesiadau cynaliadwyedd; dadansoddi cylch bywyd; ISO14001) mewn o leiaf un cyd-destun perthnasol
- profiad o ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu a thechnegau systemau gan gynnwys methodoleg systemau meddal, technegau diagramau a dynameg systemau sylfaenol
- diddordeb mewn defnyddio syniadau a dulliau gweithredu systemau i ddatblygu cysyniadau ac arferion rheoli amgylcheddol yn gritigol
- hyder mewn addysgu ar-lein a brwdfrydedd dros wneud hynny.

*Gwybodaeth ychwanegol*

- Bydd 15 awr o diwtora ar-lein dros gyfnod y modiwl (heb unrhyw sesiynau wyneb yn wyneb)
- Bydd hyn yn cynnwys 2 x sesiwn gyngor 30 munud ar gyfer gweithgarwch grŵp Bloc 3.

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	3.5